



Prifysgol De Cymru

Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol
governance@southwales.ac.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein dyletswyddau cyfreithiol	4
Nodweddion Gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010	5
Ymrwymiad Prifysgol De Cymru i Gydraddoldeb	6
Pwy ydym ni	6
Sut rydym yn monitro ein cynnydd	7
Is-Grwpiau wedi'u Cryfhau ar gyfer Gweithredu Penodol	7
Trosolwg o'r Strwythur Llywodraethu	8
Nodi, Casglu a Defnyddio Gwybodaeth Berthnasol	9
Y Camau a Gymerwyd i Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol	9
Monitro Cydraddoldeb i Gydweithwyr	9
Monitro Cydraddoldeb i Fyfyrwyr	9
Adrodd a Dadansoddi	9
Rhesymau dros beidio â Chasglu Gwybodaeth Berthnasol	9
Datganiad ar Effeithiolrwydd y Trefniadau ar gyfer Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol	10
Adroddiad Blynnyddol ar Gydraddoldeb 2023-2024	10
Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol De Cymru 2024 – 2028	11
Prif Nodweddion y Dull Newydd	11
Strategaeth ar Sail Data a Thegwch yn Fwriadol	12
Integreiddio a Chynaliadwyedd	12
Y Weledigaeth: Effaith a Pherthyn	12
Mentrau, digwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau noddi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws y Brifysgol	13
Mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	13
Digwyddiadau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	15
Gweithdai sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	17
Nawdd Cymunedol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	19
Cynllun Gweithredu Canlyniadau Gwahaniaethol (DOAP) 2024-2027	21
Arolwg Siarter Cydraddoldeb Hil	22
Themâu allweddol sy'n ymwneud â staff	23
Themâu allweddol sy'n ymwneud â myfyrwyr	24
Data Ansoddol a Meintiol Mewnol am Degwch Hiliol a gasglwyd rhwng 2020 a 2024	25
Y diweddaraf am Brifysgol Noddfa	25

Adrodd a Chefnogi - y diweddaraf am adrodd ar fwlio, aflonyddu, trais a/neu wahaniaethu ar sail hunaniaeth.....	26
Casgliad.....	27
Atodiad 1 Digwyddiadau ac Ymgyrchoedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.....	28
Atodiad 2 – Digwyddiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gyflwynwyd gan y Gyfadran Busnes a'r Diwydiannau Creadigol.....	32

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Prifysgol De Cymru ar Gydraddoldeb, sy'n cwmpasu'r cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y camau sylweddol y mae'r Brifysgol wedi'u cymryd o ran ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ei gwerthoedd a'i harferion craidd. Mae datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn rhan ganolog o'r cynnydd hwn. Cychwynnwyd ar y cynllun ym mis Ionawr 2023, ac mae'n gosod y sylfaen ar gyfer effaith hirdymor.

Yn ogystal â chyflawniadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ehangach, mae'r adroddiad hwn yn rhoi pwyslais arbennig drwy'r ddogfen gyfan ar daith Tegwch o ran Hil y Brifysgol yn ystod y cyfnod adrodd, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemig a meithrin amgylchedd cynhwysol i bawb.

Mae'n bwysig nodi, er bod Grŵp Prifysgol De Cymru yn cynnwys Prifysgol De Cymru a'i ddau is-gwmni—Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful—bod y ddau is-gorff yn cynhyrchu eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain ar Gydraddoldeb.

Ein dyletswyddau cyfreithiol


Dan Ddyletswydd Gyffredinol Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, rhaid i gyrff cyhoeddus wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf neu oddi tani.
- Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

A rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb drwy wneud y canlynol:

- Dileu neu leihau'r anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Nodweddion Gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010



Yma ym Mhrifysgol De Cymru, rydym yn defnyddio'r term Hunaniaeth Rhywedd gan ei fod yn derm mwy cynhwysol ac mae'n cynnwys pobl nad ydynt yn gweld eu hunain fel rhywun sy'n cael ailbennu eu rhywedd. Rydym yn defnyddio hunaniaeth rhywedd yn hytrach nag ailbennu rhywedd drwy gydol y ddogfen hon. Hunaniaeth rhywedd rhywun yw ymdeimlad mewnol, dwfn rhywun o'i rywedd ei hun.

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, rhaid i ni gyflawni'r dyletswyddau penodol, sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol), a Rheoliadau (Cymru) 2011.

Daeth y dyletswyddau hyn i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011, ac maent yn cynnwys:

- datblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd;
- cynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, wrth ddatblygu cynlluniau, polisiau a llunio gwasanaethau;
- cynnal asesiadau priodol o'r effaith ar gydraddoldeb;
- casglu a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb, cyflogaeth a gwahaniaethau mewn cyflog;
- hyrwyddo hyfforddiant staff sy'n seiliedig ar gydraddoldeb;
- ystyried cydraddoldeb wrth brynu gwasanaethau a chytuno ar gontractau;
- cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb;
- adolygu ein cynlluniau a'n hamcanion cydraddoldeb i sicrhau eu bod yn gyffredol;
- gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth rydym yn ei darparu.

Ymrwymiad Prifysgol De Cymru i Gydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid ein hagwedd at degwch a chynhwysiant drwy hunanfyfrio, herio gweithredol, ymgysylltu ystyrion, a chraffu cadarn. Rydym yn cydnabod bod y daith hon yn gofyn am ddewrder, gan gynnwys wynebu teimladau o anesmwythder i fynd i'r afael â materion anodd, cymryd rhan mewn sgysiau dewr, a chymryd camau pwrpasol i sicrhau tegwch gwirioneddol i bawb.

Mae ein hymrwymiad wedi'i wreiddio mewn cydweithio a chyd-gynhyrchu gyda'n myfyrwyr, ein cydweithwyr a'n cymunedau. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu mannau teg lle mae unigolion yn cael eu gwerthfawrogi y tu hwnt i gyfyngiadau unrhyw labeli neu flychau. Ein nod yw sicrhau bod cydraddoldeb a chanlyniadau teg yn cael eu gwreiddio wrth galon popeth a wnawn.

Rydym wedi ymrwymo i chwalu rhwystrau a herio stigma, wedi ein hysbrydoli gan brofiadau go iawn ein myfyrwyr, ein cydweithwyr a'n cymunedau. Byddwn yn meithrin ymdeimlad cyffredin o berthyn o fewn teulu Prifysgol De Cymru, gan ein huno yn ein cenhadaeth. Er ein bod wedi gwneud cynnydd, mae ein data'n dangos bod gennym waith sylweddol i'w wneud o hyd i sicrhau tegwch a chynhwysiant gwirioneddol i bawb.

Ein nod yw cynnal amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol lle mae amrywiaeth yn cael ei ddathlu, lle mae tegwch yn cael ei ddatblygu, a lle pawb yn cael cyfle i lwyddo a gwneud cynnydd. Drwy fabwysiadu agwedd goddef dim ymddygiad nac arferion gwahaniaethol, byddwn yn gwahodd her a chraffu o'r tu mewn a'r tu hwnt i'r sefydliad. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, Undebau Llafur, rhwydweithiau staff, a'r Grŵp Cyfeillion Beirniadol dan gadeiryddiaeth Sanjiv Vedi OBE, ynghyd â Phrosiect Datblygu Ieuenctid arloesol Casnewydd - Cylch Trefol - i sicrhau dull tryloyw ac atebol o olrhain ein cynnydd.

Mae ein hymrwymiad yn fwy na dim ond geiriau. Ar sail gwaith ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'i ategu gan ymgynghori ac ymgysylltu, mae ein cynllun gweithredu yn cyd-fynd â strategaeth Prifysgol De Cymru 2030, gan ymgorffori tegwch a chynhwysiant yng ngwedd ein cynlluniau busnes sefydliadol. Rydym yn benderfynol o gael ein mesur yn ôl newid ystyrion, gan ein dal ein hunain yn atebol bob cam o'r ffordd.

Pwy ydym ni

Prifysgol De Cymru yw un o brifysgolion mwyaf deinamig a blaengar y DU, sydd wedi ymrwymo i greu dyfodol mwy disglair i'n myfyrwyr, ein cymunedau a'n partneriaid. Gan ganolbwyntio ar arloesi, cynaliadwyedd, ac effaith yn y byd go iawn, rydym yn ffynnu ar rymuso unigolion a thrawsnewid diwydiannau yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Mae cydweithio wrth wraidd popeth a wnawn. Mae Prifysgol De Cymru yn gweithio'n agos gydag arweinwyr busnes, gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant, a mentrau cymdeithasol i gyd-greu atebion sy'n mynd i'r afael â heriau yn y byd go iawn ac yn sicrhau canlyniadau eithriadol i ddysgwyr a sefydliadau. O ynni ac iechyd i ddiogelwch a chynaliadwyedd, mae ein hymchwil a'n harloesedd yn sbarduno cynnydd gyda rhai o faterion pwysicaf y byd.

Fel prifysgol alwedigaethol, mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i baratoi myfyrwyr ar gyfer gofynion gweithlu heddiw a heriau'r dyfodol. Mae cyflogwyr yn siapio ein cwricwlwm i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'u hanghenion yn y dyfodol, gan greu llif di-dor o raddedigion medrus sy'n barod i gyfrannu'n ystyrion at ddiwydiannau allweddol. Mae'r bartneriaeth agos hon yn golygu bod ein graddedigion yn bodloni disgwyliadau cyflogwyr yn gyson ac yn cael effaith ar unwaith yn y meysydd o'u dewis.

Mae Prifysgol De Cymru yn falch o'i rôl fel prifysgol gynhwysol ac amlddisgyblaethol. Daw bron i hanner ein myfyrwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ehangu mynediad a meithrin llwyddiant i ddysgwyr o bob cefndir. Mae'r cyflawniad hwn yn ein gosod ar wahân, gan ragori ar y cyfartaledd ar gyfer sefydliadau addysg uwch ledled Cymru a'r DU.

Mae ein campysau yng Nghaerdydd, Casnewydd a Phontypridd yn darparu amgylcheddau bywiog ac amrywiol i ddysgu a thyfu. Nid prifysgol yn unig yw Prifysgol De Cymru; rydym yn ganolfan o arloesi, cydweithio a chyfleoedd, yn sbarduno newid cadarnhaol i'n myfyrwyr, ein partneriaid a'r byd ehangach.

Sut rydym yn monitro ein cynnydd

Er mwyn sicrhau bod agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Prifysgol De Cymru yn cael ei monitro'n effeithiol, mae'r strwythurau llywodraethu ac adrodd wedi cael eu cryfhau'n sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r prif welliannau'n cynnwys creu swydd Weithredol newydd, Prif Swyddog Pobl a Chynhwysiant, gyda chyfrifoldeb uniongyrchol dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn ei bortffolio. Mae prosesau adrodd y Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hefyd wedi cael eu gwella, gyda Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol De Cymru yn cael diweddariadau uniongyrchol ddwywaith y flwyddyn, a'r Tîm Gweithredol yn cael adroddiadau chwarterol.

Cefnogir y gwell prosesau llywodraethu hyn gan barhad Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol (y Grŵp Llywio), sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolaeth o bob adran, cyfadran, Undeb Llafur, Undeb y Myfyrwyr, Coleg Merthyr Tudful, a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Er mwyn bod yn ddiduedd, Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n cadeirio'r grŵp o hyd. Mae'r Grŵp Llywio yn goruchwyllo cydymffurfiaid â Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ystyried materion cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, ac yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer agenda cydraddoldeb Grŵp Prifysgol De Cymru. Mae ganddo hefyd gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei fonitro, ei weithredu a'i adolygu.

Is-Grwpiau wedi'u Cryfhau ar gyfer Gweithredu Penodol

Yn unol ag argymhellion archwiliad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022, ac fel rhan o'r ymarfer cryfhau hwn, mae Prifysgol De Cymru wedi ailsefydlu'r **Is-Grwpiau Cydraddoldeb** canlynol, ac mae pob un yn canolbwyntio ar nodwedd benodol:

- **Tîm Hunanasesu ac Is-weithgor Cydraddoldeb Hil**
Yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu mentrau Tegwch o ran Hil y Brifysgol,

sy'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp hwn hefyd yn goruchwyllo'r gwaith o gyflwyno Siarter Cydraddoldeb Hil AdvanceHE sydd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2025.

- **Tîm Hunanasesu ac Is-grŵp Cydraddoldeb Hunaniaeth Rhywedd**

Yn ymgymryd â'r dasg o ddatblygu gwaith Tegwch Rhywedd y Brifysgol, gan gynnwys adnewyddu Siarter AdvanceHE Athena Swan. Sylwch fod Athena Swan yn gofyn i sefydliadau fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywedd, gan gynnwys rhyw a hunaniaeth rhywedd.

- **Is-grŵp Cydraddoldeb Cyfeiriadedd Rhywiol**


Yn canolbwyntio ar yrru gwaith Tegwch Cyfeiriadedd Rhywiol yn unol â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ac wedi'i ategu gan ofynion Mynegai yn y Gweithle Stonewall.

- **Is-grŵp Cydraddoldeb i Bobl Anabl**

Yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu mentrau Tegwch Anabledd, dan arweiniad Cynllun Gweithredu Anabledd diweddaraf Llywodraeth Cymru (a ddisgwylir yn gynnar yn 2025) a Chynllun Hyderus o ran Anabledd y DU.

Trosolwg o'r Strwythur Llywodraethu

Mae'r diagram o'r strwythur llywodraethu isod yn dangos y berthynas rhwng y Grŵp Llywio, yr is-grwpiau, a'r gweithgorau sy'n gyfrifol am ddatblygu mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws Prifysgol De Cymru. Er bod pob grŵp yn pwysleisio eu priod feysydd ffocws, mae croestoriadedd yn parhau i fod yn egwyddor arweiniol yn eu penderfyniadau a'u hasesiadau effaith. Bydd rhagor o fanylion isod yn tynnu sylw at grwpiau allweddol, yn enwedig y rhai sy'n llywio ymdrechion tegwch o ran hil, gan ddangos sut mae'r grwpiau hyn yn cyfrannu at fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cyffannol y Brifysgol.



Nodi, Casglu a Defnyddio Gwybodaeth Berthnasol

Y Camau a Gymerwyd i Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Dan ddyletswyddau statudol y Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Cymru, ystyrir bod data monitro cydraddoldeb ar gyfer cydweithwyr a myfyrwyr yn "wybodaeth berthnasol" i gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Monitro Cydraddoldeb i Gydweithwyr

Mae Prifysgol De Cymru yn casglu data cydraddoldeb ar gyfer holl nodweddion gwarchodedig cydweithwyr drwy ei systemau recriwtio ac adnoddau dynol ar-lein. Mae ymgeiswyr yn darparu eu data cydraddoldeb yn gyfrinachol fel rhan o'r broses recriwtio, gan alluogi'r adran Adnoddau Dynol i gynhyrchu adroddiadau dienw blynyddol ar gyfraddau llwyddiant ymgeiswyr ar draws pob cam recriwtio, wedi'u rhannu yn ôl nodweddion gwarchodedig. Gall cydweithwyr presennol ddiweddarau eu data cydraddoldeb ar unrhyw adeg drwy opsiwn "hunanwasanaeth" y system Adnoddau Dynol. Mae'r data'n cael ei grynhoi a'i gyflwyno yn.

Monitro Cydraddoldeb i Fyfyrwyr

Mae cofrestru myfyrwyr, a gynhelir yn flynyddol drwy system ar-lein, hefyd yn cynnwys monitro cydraddoldeb ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae'r data a gesglir yn cael ei storio'n ddiogel a'i ddefnyddio i gynhyrchu adroddiadau dienw ar gynrychiolaeth grwpiau cydraddoldeb gwahanol o fewn y boblogaeth myfyrwyr. Manylir ar y canfyddiadau hyn yn yr Adroddiad Data Cydraddoldeb Myfyrwyr, sydd wedi'i gynnwys yn.

Adrodd a Dadansoddi

Mae'r adroddiadau Gwybodaeth am Gyflogaeth a Data Cydraddoldeb Myfyrwyr yn cael eu cyflwyno'n flynyddol i'r Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Diogelu, Tîm Gweithredol Prifysgol De Cymru, a'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi cipolwg beirniadol ar dueddiadau ac anghydbwysedd, gan lywio datblygiad a chynnydd yr agenda cydraddoldeb ym Mhrifysgol De Cymru.

Rhesymau dros beidio â Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Mae'r Brifysgol yn casglu gwybodaeth am yr holl nodweddion gwarchodedig ar gyfer cydweithwyr a myfyrwyr, ac eithrio'r canlynol:

Beichiogrwydd a Mamolaeth: Ni chesglir gwybodaeth am feichiogrwydd/mamolaeth i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod cofrestru. Fodd bynnag, mae Prifysgol De Cymru yn cefnogi myfyrwyr sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar drwy roi arweiniad i fyfyrwyr ar feichiogrwydd, mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu a thrwy'r Ardaloedd Cynghori Myfyrwyr. Mae'r adran Adnoddau Dynol yn cadw gwybodaeth am gydweithwyr ar

feichiogrwydd/mamolaeth at ddibenion gweinyddu absenoldeb mamolaeth a thadolaeth.

Priodas a Phartneriaeth Sifil: Mae data ar statws priodasol a phartneriaeth sifil yn cael ei gasglu ar gyfer cydweithwyr ar hyn o bryd, ond nid ar gyfer myfyrwyr. Gan nad yw priodas a phartneriaeth sifil yn nodwedd warchodedig ar gyfer y darpariaethau addysg uwch, nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddechrau monitro'r nodwedd hon i fyfyrwyr. Mae'r teitl niwtral o ran rhywedd, 'Mx' ar gael i gydweithwyr a myfyrwyr ei ddefnyddio yn y ddwy system.

Datganiad ar Effeithiolrwydd y Trefniadau ar gyfer Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Mae'r Brifysgol yn dangos ymrwymiad cryf i nodi, casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth berthnasol. Mae'r trefniadau presennol yn effeithiol ac yn ddeinamig, gydag adolygiadau a diweddariadau rheolaidd i ymgorffori dulliau arloesol o ddefnyddio gwybodaeth.

Mae strwythurau llywodraethu cydraddoldeb cadarn yn sail i'r broses hon, gan sicrhau dull cynhwysfawr a phenodol o archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer blaenoriaethau cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'r strwythurau hyn yn galluogi cynnal dadansoddiad trylwyr o effaith y camau a gymerwyd, gan integreiddio canfyddiadau ymchwil ac arferion gorau i bolisiau ac arferion sefydliadol ar yr un pryd.

Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2023-2024

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y prif fentrau, digwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau noddi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mae'r prif ddatblygiadau yn cynnwys:

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2024-2028):** Cyflwyno dull newydd a datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol De Cymru yn barhaus, gan ei ddylunio i gyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol ac anghenion y dyfodol.
- **Gweithgareddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ledled y Brifysgol:** Amrywiaeth o fentrau, digwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau nawdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws Prifysgol De Cymru, gyda'r nod o feithrin diwylliant cynhwysol ar draws y Brifysgol.
- **Cynllun Gweithredu Canlyniadau Gwahaniaethol:** Gwneud cynnydd ar ddatblygu cynllun gweithredu Prifysgol De Cymru i fynd i'r afael â chanlyniadau gwahaniaethol a gwella llwyddiant myfyrwyr yn deg.
- **Arolwg Siarter Cydraddoldeb Hil:** Crynodeb o Arolwg Siarter Cydraddoldeb Hil llawn cyntaf y Brifysgol fel rhan o'i hymrwymiad i ofynion W23/20HE ac AdvanceHE

- **Prifysgol Noddfa:** Gwneud cynnydd ar ymdrechion y Brifysgol i gryfhau ei safle fel Prifysgol Noddfa, gan gynyddu'r gefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- **System Adrodd a Chymorth:** Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r llwyfan Adrodd a Chymorth, gan alluogi adrodd a gweithredu ar fwlio, aflonyddu, trais a gwahaniaethu ar sail hunaniaeth.

Gwybodaeth Ychwanegol:

- **Atodiad 1:** Rhestr fanwl o negeseuon Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y mae'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn eu rhannu drwy sianeli allanol a mewnol.
- **Atodiad 2:** Ciplwg ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Gyfadrn Busnes a'r Diwydiannau Creadigol.

Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol De Cymru 2024 – 2028

Mae datblygu **Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd y Brifysgol ar gyfer 2024–2028** yn ymgorffori dull newydd, cydweithredol sy'n defnyddio data. Mae'r fethodoleg arloesol hon yn integreiddio arferion gorau'r sector â chenhadaeth graidd Prifysgol De Cymru i sbarduno newid ystyrlon.

Prif Nodweddion y Dull Newydd

- **Ymwneud Cynnar y Tîm Gweithredol:** Sicrhau cefnogaeth a pherchnogaeth y tîm Gweithredol yn gynnar yn y broses er mwyn i'r strategaeth gyd-fynd â blaenoriaethau'r sefydliad, gan sicrhau ymrwymiad o'r brig i lawr a chydlynid strategol.
- **Cymryd Rhan Mewn Arweinyddiaeth Gynhwysol:** Ymgysylltu â thîm arwain uwch ehangach Prifysgol De Cymru i lunio ymrwymadau cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu, gan feithrin cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am ganlyniadau.
- **Ymgynghori Helaeth â Rhanddeiliaid:** Cynnal ymgynghoriadau cadarn gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, wedi'u hwyluso gan arbenigwyr mewnol ac allanol. Roedd y broses gynhwysol hon yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur, Undeb y Myfyrwyr, grwpiau cymunedol, a'r Grŵp Cyfeillion Beirniadol newydd a ffurfiwyd i sicrhau mewnbwn cytbwys a chynhwysfawr.
- **Symleiddio a Ffocws:** Symleiddio gweithgareddau cydraddoldeb presennol yn dri maes effaith craidd i hyrwyddo eglurder, cydlynid ac effeithlonrwydd wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau'r sefydliad.
- **Cyd-fynd â Metrigau'r Sefydliad:** Integreiddio'r cynllun gyda mesurau perfformiad sefydledig Prifysgol De Cymru, yn enwedig y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol, i wella atebolrwydd a monitro cynnydd yn effeithiol.

Strategaeth ar Sail Data a Thegwch yn Fwriadol

Ar sail ymchwil helaeth i'r sector, dadansoddi data ac adolygiadau mewnol, nododd y broses gynllunio dri phrif faes effaith: Myfyrwyr, Cydweithwyr a Chymunedau (mewnol ac allanol).

- **Nodi Heriau:** Roedd dadansoddi data cydraddoldeb mewnol yn tynnu sylw at heriau penodol a oedd yn effeithio ar brofiadau a chanlyniadau myfyrwyr a staff.
- **Tegwch yn Fwriadol:** Mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar degwch gan ddefnyddio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod data cydraddoldeb yn cyd-fynd â Ffactorau Llwyddiant Hanfodol Prifysgol De Cymru. Atgyfnerthwyd y dull hwn gan ddata cynhwysfawr am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gynhyrchwyd gan adran Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid Prifysgol De Cymru.

Mae'r cysondeb strategol hwn hefyd yn cefnogi achrediaadau cydraddoldeb Prifysgol De Cymru, gan gynnwys Cydraddoldeb Hil ac Athena Swan, gan sicrhau bod gweithredoedd y Brifysgol yn effeithiol ac yn fesuradwy.

Integreiddio a Chynaliadwyedd

Mae'r ymdrechion i integreiddio'r Cynllun â busnes craidd Prifysgol De Cymru a strategaeth gyffredinol y sefydliad yn ceisio:

- Uno prosesau cynllunio, cynlluniau gweithredu a dulliau casglu data er mwyn cael cysondeb.
- Canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli er mwyn cau bylchau mewn cyfleoedd a chanlyniadau.
- Meithrin amrywiaeth gynaliadwy ac arferion cynhwysol, gan greu ymdeimlad cyffredin o berthyn ar sail persbectif croestoriadol.

Y Weledigaeth: Effaith a Pherthyn

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â **chenhadaeth 2030 Prifysgol De Cymru:**


“Newid bywydau a’n byd er gwell yfory: Bydd Prifysgol De Cymru yn un o brifysgolion blaenllaw'r DU, yn sicrhau'r effaith fwyaf i'n myfyrwyr, ein partneriaid a'n cymunedau.”

Mae'r weledigaeth hon yn sail i'r Tri Philer Effaith:

1. **Myfyrwyr**
2. **Cydweithwyr**
3. **Cymunedau**

Mae'r pileri hyn yn llywio amcanion cydraddoldeb y Brifysgol, gan sbarduno newid trawsnewidiol gyda'r nod cyffredinol o feithrin amgylchedd amrywiol, cynhwysol a theg i bawb. Yr amcan cyffredinol yw:

‘Sicrhau ffocws clir ar grwpiau sy’n cael eu tangynrychioli er mwyn mynd ati’n rhagweithiol i gau bylchau a chanlyniadau. Gwneir hyn drwy arallgyfeirio cynaliadwy ac ymarfer cynhwysol gan greu ymdeimlad o berthyn ar y cyd.’



Mentrau, digwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau noddï Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws y Brifysgol

Mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Datblygu'r Grŵp Cyfeillion Beirniadol - Cydraddoldeb**

Bwriad sefydlu Grŵp Cyfeillion Beirniadol - Cydraddoldeb yn y Brifysgol yw ysgogi trawsnewid diwylliannol ystyrlon, cryfhau'r berthynas â chymunedau amrywiol, a mynd i'r afael ag annhegwch systemig a strwythurol yn y sefydliad.

Bydd y Grŵp yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o feithrin newid cadarnhaol drwy adolygu ac argymhell strategaethau, polisiâu ac arferion newydd sy'n hyrwyddo cynhwysiant a thegwch. Drwy ddarparu gwybodaeth werthfawr, arweiniad a her adeiladol, bydd y grŵp yn cefnogi'r Brifysgol yn ei hymdrechion parhaus i greu amgylchedd mwy cynhwysol i bawb.

Bydd y Grŵp yn dod ag unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol ynghyd, ochr yn ochr ag uwch lunwyr polisi, i greu mannau ar gyfer deialog agored a blaengar. Bydd y rhyngweithio hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu adnoddau a meithrin ymgysylltu ar y cyd sy'n arwain at ganlyniadau diriaethol y gellir gweithredu arnynt. Bydd gwaith y grŵp hefyd yn sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i gyd-fynd â'i hymrwymiad i amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth cadarn, gan helpu i ddatblygu cynlluniau a strategaethau'r sefydliad ar gyfer cymuned decach a mwy cynhwysol.

- Prifysgol De Cymru a Chylch Trefol Casnewydd yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyntaf**


Ym mis Ionawr 2023, cytunodd Prifysgol De Cymru ac UCU i sefydlu partneriaeth strategol, gan nodi cyfnod allweddol yn hanes Prifysgol De Cymru drwy ffurfio sylfaen gref gydag un o sefydliadau blaenllaw Cymru sy'n cael ei arwain gan bobl ddu.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae Cylch Trefol Casnewydd wedi bod yn bartner brwd a phwysig yn cefnogi taith Gwrth-hiliaeth Prifysgol De Cymru. Dyma rai o'i brif gyfraniadau:

- **Datblygu Adnoddau a Gweithdai:** Mae Cylch Trefol Casnewydd wedi cefnogi'r gwaith o greu deunyddiau a gweithdai allweddol i hyrwyddo addysg gwrth-hiliaeth ym Mhrifysgol De Cymru.
- **Ymgysylltu â'r Grŵp Cyfeillion Beirniadol - Cydraddoldeb:** Mae Cylch Trefol Casnewydd wedi darparu llais yng Ngrŵp Cyfeillion Beirniadol - Cydraddoldeb, Prifysgol De Cymru, gan gynnig adborth adeiladol, rhannu gwybodaeth werthfawr, a defnyddio profiadau go iawn i feithrin trafodaethau ystyrlon ar gydraddoldeb.
- **Arweinyddiaeth mewn Sgyrsiau Allweddol:** Chwaraeodd Cylch Trefol Casnewydd ran ganolog yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno cyfres Sgyrsiau Allweddol Prifysgol De Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar bynciau hanfodol fel Braint Pobl Wyn a Chroestoriadedd, gan annog myfyrio ar y materion cymhleth hyn a'u trafod.
- **Partneriaeth â Chyfarwyddwr Addysg Prifysgol De Cymru:** Drwy gydweithio â Chyfarwyddwr Addysg Prifysgol De Cymru, mae Cylch Trefol Casnewydd wedi cefnogi Grŵp Atebolrwydd Allanol Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau cyfle i ddylanwadu a siapiau polisïau gwrth-hiliol ledled Cymru.
- **Sicrhau Cyllid ar gyfer Mwy o Amrywiaeth:** Drwy ymdrechion dan arweiniad y Cyfarwyddwr Addysg, sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r broses o recriwtio ymgeiswyr Du ac Ethnig Leiafrifol i Addysg Gychwynnol i Athrawon. Roedd y fenter hon yn galluogi Cylch Trefol Casnewydd i gydweithio ymhellach â staff a myfyrwyr ar hyfforddiant ac arferion gwrth-hiliol.

Mae'r ymdrechion hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Prifysgol De Cymru a Chylch Trefol Casnewydd i feithrin amgylchedd mwy cynhwysol a gwrth-hiliol ym Mhrifysgol De Cymru a ledled Cymru.

- **Adduned i Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Siewmyn a Phobl sy'n byw mewn Cychod (GTRSB)**



Ym mis Gorffennaf 2023, ymrwymodd Prifysgol De Cymru i'r Addewid Addysg Uwch ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Siewmyn a Phobl sy'n byw mewn Cychod (GTRSB), er mwyn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru. Bwriad yr adduned hon yw gwella mynediad, cynrychiolaeth a chanlyniadau ar gyfer y gymuned GTRSB drwy ganolbwyntio ar gasglu data cynhwysfawr, meithrin diwylliant sefydliadol cynhwysol, a rhoi mentrau allgymorth wedi'u targedu ar waith.

Datblygwyd yr Adduned drwy broses ymgynghori a oedd yn cynnwys mewnbwn gan y gymuned GTRSB, sefydliadau cymdeithas sifil, cynrychiolwyr prifysgolion, ac arbenigwyr polisi addysg. Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil ac arferion gorau ar gyfer ehangu cyfranogiad, gyda'r nod o gefnogi aelodau o'r cymunedau hyn yn well i fynd i mewn i addysg uwch a ffynnu ynddi.

Mae'r mentrau allweddol a amlinellir yn Adduned y Brifysgol yn cynnwys:

- **Casglu Data:** Galluogi myfyrwyr a staff i nodi pwy ydyn nhw, gan sicrhau bod data'n cael ei integreiddio'n gadarn mewn adroddiadau cydraddoldeb blynyddol er mwyn gwella gwaith monitro ac atebolrwydd.
- **Meithrin Diwylliant:** Datblygu cwricwla wedi'u dad-drefedigaethu, sefydlu gweithdrefnau gwrth-fwlio clir a hygyrch, a chynnig gwasanaethau cymorth pwrpasol wedi'u teilwra i anghenion myfyrwyr GTRSB.
- **Allgymorth:** Cymryd rhan mewn rhaglenni allgymorth wedi'u targedu gydag ysgolion a sefydliadau trydydd parti i hyrwyddo cyfleoedd addysg uwch yn weithredol i gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.

Mae'r mesurau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus Prifysgol De Cymru i hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, gan ddarparu amgylchedd cefnogol i holl aelodau'r gymuned GTRSB lwyddo a ffynnu.

Digwyddiadau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- **Gorymdaith Pride Prifysgol De Cymru ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru:** Roedd Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru yn falch o gymryd rhan yng Ngorymdaith Pride Cymru ym mis Mehefin 2023, gan ddangos partneriaeth gref a chefnogaeth ar ffurf nawdd ar gyfer y digwyddiad, gyda myfyrwyr yn dod at ei gilydd mewn undod dan faner "Cerdded â Phrifysgol De Cymru".





- **Gŵyl Ddiwylliannol Ryngwladol 1af Prifysgol De Cymru:** Cymerodd dros 300 o fyfyrwyr ran yn yr Ŵyl Ddiwylliannol Ryngwladol gyntaf ym mis Mehefin 2023, gan ddathlu mynegiant diwylliannol amrywiol drwy ddawns, gwisgoedd a cherddoriaeth. Roedd y digwyddiad yn gyfle i fyfyrwyr rannu eu treftadaeth, gan feithrin cynwysoldeb a pharch at ei gilydd.



- **Lansio iBelong Series Talk Show a Tequila Radio:** Lansiodd llwyfan cyfryngau newydd i annog cynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd iBelong Series Talk Show, ochr yn ochr â Tequila Radio, wedi ennyn diddordeb dros 50 o fyfyrwyr mewn trafodaethau bywiog am fywyd myfyrwyr, gan bwysleisio pwysigrwydd creu mannau cynhwysol ar gyfer pob llais.
- **Dathlu Myfyrwyr MBA Byd-eang Prifysgol De Cymru:** Cynhaliwyd dathliadau diwedd y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr MBA Byd-eang Prifysgol De Cymru ar Gampws Casnewydd ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2023. Roedd y digwyddiadau yn croesawu myfyrwyr a'u teuluoedd, a daeth dros 100 o fyfyrwyr i bob dathliad, gan hyrwyddo ymdeimlad o gymuned a chynhwysiant o fewn rhwydwaith byd-eang Prifysgol De Cymru.



- **Datblygu ail fideo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Prifysgol De Cymru:** fideo yn dangos taith 4 o'n graddedigion yn y Brifysgol o gyfres Ni yw Prifysgol De Cymru.



- **Datblygu Calendr Cynhwysiant Ar-lein Blynnyddol 1af Prifysgol De Cymru:** Lansiwyd y calendr ym mis Hydref 2023, ac mae'n cynnwys gwyliau pwysig a dyddiadau tegwch, sy'n cynnig cydnabyddiaeth a chefnogaeth i'n corff amrywiol o fyfyrwyr a chydweithwyr. Mae'r calendr yn adnodd gwerthfawr i hyrwyddo cynhwysiant drwy gydol y flwyddyn.

Gweithdai sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- **Sesiynau Rhagfarn Digwestiwn a Myfrio Diwylliannol:** Fel rhan o'r dadansoddiad o anghenion dysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac mewn ymateb i geisiadau o bob rhan o'r sefydliad, datblygodd a chyflwynodd y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant dair sesiwn wyneb yn wyneb gyda'r nod o helpu cydweithwyr i lywio goblygiadau seicolegol ac emosiynol trafodaethau am hil a thegwch. Ar ben

hynny, fe wnaeth y Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyd-gynhyrchu hyfforddiant Niwrowahanol, a dreialwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

- Gweithdai “Galluogi Cwricwlwm sy’n Gynhwysol yn Hiliol” Advance HE:**
 Mewn cydweithrediad â Chanolfan Addysg, Dysgu ac Addysgu (CELT) Prifysgol De Cymru, cyflwynodd AdvanceHE ddau weithdy hanner diwrnod yn targedu staff allweddol sy’n gyfrifol am ddatblygu’r cwricwlwm. Roedd y gweithdai’n canolbwyntio ar fynd i’r afael ag annhegwch hiliol mewn Addysg Uwch a rhoi’r canlynol i gyfranogwyr:
 - Dealltwriaeth well o annhegwch hiliol yn y cyd-destun academiaidd a sut i feithrin arferion addysgu cynhwysol.
 - Strategaethau ymarferol i wella cynhwysiant yn y cwricwlwm, gan sicrhau bod ymatebion i eithrio hiliol yn glir ac yn effeithiol.
 - Adnoddau ac offer addysgegol i hwyluso trafodaethau parhaus gan dimau pwnc ynghylch dylunio cwricwlwm sy’n gynhwysol o ran hil.
- Gweithdy Tegwch o ran Hil a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Modiwl Pêl-droed mewn Cymdeithas (Myfyrwyr Israddedig Blwyddyn 1):** Fel rhan o’r modiwl Pêl-droed mewn Cymdeithas yng nghwrs Pêl-droed Prifysgol De Cymru, cyflwynodd y Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fyfyrwyr blwyddyn gyntaf i gysyniadau allweddol tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gan ganolbwyntio ar fynd i’r afael ag annhegwch mewn chwaraeon a chymdeithas.
- Cyfres Sgyrsiau Allweddol:** Lanswyd y gyfres Sgyrsiau Allweddol ym mis Hydref 2023 mewn partneriaeth â Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol De Cymru, Donna Whitehead. Cafodd ymgyrchwyr cymunedol wahoddiad i gymryd rhan mewn trafodaethau agored ar bynciau heriol fel Braint Pobl Wyn, Croestoriadedd a Therminoleg. Roedd y digwyddiadau panel hyn yn cynnig man dewr i gydweithwyr a myfyrwyr gael trafodaeth ystyrlon (Hydref 2023, Ionawr 2024).



- **Siaradwyr Gwadd Allanol yn Rhannu Arferion Gorau:**
 - **Deall Profiadau Myfyrwyr Rhyngwladol gyda Strathclyde SU:** Sesiwn sy'n canolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd a wynebwr gan fyfyrwyr rhyngwladol.
 - **Deall Data Croestoriadol gyda Network Rail Cymru/De Orllewin Lloegr:** Gweithdy sy'n edrych ar bwysigrwydd data croestoriadol a sut gall sbarduno newid ystyrlon yn y gweithle.
- **Prifysgol De Cymru yn cynnal Fforwm 10KV ar gyfer Meincnodi Diwylliannol:** Digwyddiad ar y cyd rhwng Sefydliad Hydra, Heddlu Gwent, ac arweinwyr cymunedau Pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol, a oedd yn canolbwyntio ar feincnodi diwylliannol a chryfhau'r berthynas rhwng sefydliadau a chymunedau amrywiol.
- **Gweithdai Gwrth-hiliaeth:** Cyflwynwyd cyfanswm o 34 o weithdai gwrth-hiliaeth yn ystod y cyfnod adrodd, gan ymgysylltu â dros 600 o aelodau staff. Roedd y sesiynau hyn yn rhoi llwyfan i gael trafodaethau beirniadol ar ragfarn ddiarwybod, braint pobl wyn, microymosodiadau, a chynghreiriad gweithredol. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod yr angen am newid meddylfryd i chwalo rhwystrau strwythurol i degwch hiliol, a phwysigrwydd symud o fod yn wylwyr goddefol i fod yn gynghreiriaid gweithredol wrth greu mannau cynhwysol.

Dyfyniad gan gyfranogwr:

Er ei fod yn anesmwyth, roedd yn braf cael fy herio a chael fy atgoffa am y fraint sydd gen i fel person gwyn. Roedd yr ystadegau a ddefnyddiwyd gan Brifysgol De Cymru yn wirioneddol syfrdanol ac yn sicr wedi gwneud i mi feddwl mwy am ba mor anodd y gall fod i bobl ethnig leiafrifol. Mae wedi fy ngwneud yn fwy penderfynol o fod yn gyfaill da a bod yn fwy ystyriol o fy nghydweithwyr Du ac Ethnic Leiafrifol

Nawdd Cymunedol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- **Cylch Trefol – Adnoddau Brave Spaces:** Mewn partneriaeth â DARPL, cafodd Cylch Trefol, Casnewydd, nawdd i'w galluogi i drawsnewid eu rhaglen ddogfen arobryn, *HumaniTree*, yn adnoddau addysgol cryno. Mae'r adnoddau hyn, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion yng Nghasnewydd, yn rhan o Gwricwlwm Aml-ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio meithrin cynhwysiant a dealltwriaeth o ddiwylliannau amrywiol ymhlith myfyrwyr.
- **Cymdeithas Cydnabod Llwyddiant Menywod Cymreig Lleiafrifoedd Ethnig (EMWWAA) – Gwobr Cyflawnwr Ifanc y Flwyddyn:** Roedd y Brifysgol yn falch o noddi gwobr *Cyflawnwr Ifanc y Flwyddyn*. Aeth Dr Louise Bright, Dirprwy Is-Ganghellor dros Fenter, Ymgysylltu a Phartneriaethau

Prifysgol De Cymru, i'r seremoni wobrwyo, a hi gafodd y fraint o gyflwyno'r wobwr fawreddog.



- Pride in the Port – Casnewydd:** Roedd y Brifysgol hefyd wedi noddi'r Llwyfan Cymunedol yn nathliadau balchder blynyddol Casnewydd, *Pride in the Port*. Yr Athro Donna Whitehead, Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol, wnaeth agor y llwyfan yn swyddogol. Mae'r nawdd hwn yn tanlinellu ymrwymiad y Brifysgol i gefnogi a dathlu cymunedau LHDTG+ yng Nghasnewydd a thu hwnt, gan gyfrannu at gynwysoldeb a bywiogrwydd y digwyddiad.



- Ras Hwyl Pride Cymru - Caerdydd:** Trefnodd Clwb Rhedeg Heol Albany ras 5k drwy Barc Bute i nodi cychwyn Mis Pride a phenwythnos Pride Cymru, a hynny dan arweiniad Swyddog Cymorth Digidol Prifysgol De Cymru, David Sinclair, i ddathlu amrywiaeth ac ysbryd cymunedol.



Mae'r mentrau, y digwyddiadau, y gweithdai a'r nawdd cymunedol hyn yn tynnu sylw at ymrwymiad parhaus Prifysgol De Cymru i greu amgylchedd dysgu cynhwysol, teg ac amrywiol, gan gyfoethogi profiad y myfyrwyr a'r staff a hyrwyddo ymgysylltu gweithredol â materion cymdeithasol pwysig.

Cynllun Gweithredu Canlyniadau Gwahaniaethol (DOAP) 2024-2027

Mae wedi'i hen sefydlu ar draws y sector Addysg Uwch bod myfyrwyr yn profi canlyniadau gwahaniaethol drwy gydol eu taith addysgol—o recriwtio i gyflogaeth. Mae'r gwahaniaethau hyn yn arbennig o amlwg mewn meysydd fel mynediad, cadw a chyrhaeddiad. Yn ei datganiad ym mis Chwefror 2024 ar flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg ac ymchwil drydyddol, galwodd Llywodraeth Cymru ar bob darparwr trydyddol yng Nghymru i gymryd camau mwy pendant i fynd i'r afael â'r annhegwch hwn. Yn benodol, mae'r Llywodraeth wedi annog sefydliadau i wneud y canlynol:

"Defnyddio data i nodi annhegwch yn y system drydyddol a llunio ymatebion sy'n cynnwys gosod targedau a chamau gweithredu uchelgeisiol i leihau gwahaniaethau mynediad, gwella amrywiaeth mewn derbyniadau lle mae tangynrychiolaeth, a chau bylchau cyrhaeddiad."

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni wynebu'r heriau hyn ym Mhrifysgol De Cymru. Mae'r data a gyflwynir yn y tabl isod yn tynnu sylw at raddau'r canlyniadau gwahaniaethol a welwyd yn ein sefydliad, gan danlinellu pwysigrwydd gweithredu strategaethau ac ymyriadau wedi'u targedu.

Bylchau Gwahaniaethol Graddau Anrhydedd Da Prifysgol De Cymru	2018	2019	2020	2021	2022
Cyfradd Gyffredinol Graddau Anrhydedd Da Prifysgol De Cymru	69.5%	75.9%	75.9%	70.5%	71.3%
Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: Benyw i Wryw	2.3%	3.2%	6.1%	7.9%	4.4%

Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: Rhyngwladol i Ddomisil yn y DU	-12.5%	-0.7%	-4.8%	-11.3%	-13.7%
Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i Wyn (MYFYRWYR A'U DOMISIL YN Y DU YN UNIG)	14.0%	-12.5%	-11.6%	-8.6%	-10.9%
Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: Du i Wyn (MYFYRWYR A'U DOMISIL YN Y DU YN UNIG)	-32.1%	-33.6%	-16.8%	-27.1%	-20.3%
Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: Asiaidd i Wyn (MYFYRWYR A'U DOMISIL YN Y DU YN UNIG)	-10.7%	-5.9%	-6.7%	-6.1%	-9.8%
Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: Cymysg i Wyn (MYFYRWYR A'U DOMISIL YN Y DU YN UNIG)	-6.7%	-3.4%	-14.8%	0.9%	-3.8%
Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i Wyn (MYFYRWYR RHYNGWLADOL YN UNIG)	-30.6%	-20.6%	-24.6%	-29.7%	Ddim yn adroddadwy mwyach
Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: Anabledd Hysbys i Ddim Anableddau Hysbys	-5.5%	-8.6%	-3.4%	-1.1%	0.8%
Bwlch Dyfarnu Prifysgol De Cymru: WIMD1a2 i WIMD3-5	-6.2%	-5.6%	-7.7%	-3.8%	-6.3%

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, lansiodd Prifysgol De Cymru ei Chynllun Gweithredu Canlyniadau Gwahaniaethol tair blynedd ar 1 Ebrill 2024, gan adeiladu ar ymdrechion a ddechreuodd yn 2022 ac a enillodd fomentwm yn 2023. Mae'r cynllun gweithredu cynhwysfawr hwn ar draws y Brifysgol wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn canlyniadau i fyfyrwyr ar draws y daith academiaidd gyfan, o recriwtio i gyflogadwyedd. Mae mentrau allweddol yn cynnwys arferion recriwtio cynhwysol, gwelliannau i'r cwricwlwm, cymorth wedi'i dargedu i fyfyrwyr a dysgu, ymyriadau sy'n seiliedig ar ddata, ymatebion amserol i heriau cadw, a mentrau cyflogaeth penodol.

Arolwg Siarter Cydraddoldeb Hil

Ym mis Ionawr 2024 fel rhan o gais Siarter Cydraddoldeb Hil y Brifysgol, cynhaliodd y Brifysgol ei harolwg Cydraddoldeb Hil llawn cyntaf. Rhannwyd yr arolwg yn ddau holiadur ar wahân, wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer Staff a Myfyrwyr, ac roedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd yr arolwg, a ddatblygwyd gan AdvanceHE, yn cynnwys 12 maes cwestiwn craidd a oedd yn canolbwyntio ar themâu allweddol:

- Ymdeimlad o Berthyn,
- Codi Llais a Chyfathrebu, a
- Diwylliant a Hinsawdd.

Hefyd, roedd 17 o gwestiynau dewisol, a oedd yn caniatáu i gyfranogwyr ymhelaethu ar y themâu hyn, yn ogystal â chwestiynau penagored i gasglu adborth ansoddol.

Dyluniwyd y cwestiynau i archwilio'r dirwedd hiliol sefydliadol drwy lens thematig, gan ystyried cyd-destunau allanol (cymdeithasol, sectoraidd, cenedlaethol) a mewnol (sefydliadol, lefel uned, lefel pwnc).

Lansiwyd yr arolwg yn swyddogol ar 25 Ionawr 2024. Roedd yn agored am 71 diwrnod, a daeth i ben ar 2 Ebrill 2024. Roedd arolygon staff a myfyrwyr yn cynnwys 12 cwestiwn craidd, ynghyd â chwestiynau dewisol a demograffig.

Cymerodd cyfanswm o 305 aelod o staff (4 yn Gymraeg) a 110 o fyfyrwyr (1 yn Gymraeg) ran yn yr arolwg dienw. O'r rhain, roedd 109 o ymatebion myfyrwyr yn Saesneg, ac roedd 1 yn Gymraeg (llai nag 1%); roedd 301 o ymatebion staff yn Saesneg, a 4 yn Gymraeg (cyfradd ymateb o tua 10%).

Er bod maint y sampl yn gyfyngedig ac o bosibl ddim cynrychioli'r sefydliad cyfan yn llawn, cydnabuwyd ei fod yn darparu data ansoddol cyfoethog ar faterion pwysig. Mae'r canlyniadau wedi bod yn arbennig o werthfawr wrth ddeall profiadau cyfranogwyr, yn enwedig mewn perthynas â gwahaniaethau ar sail ethnig ac ar sail campws. Gallai maint bach y sampl awgrymu amharodrwydd i drafod pynciau sy'n gysylltiedig â hil, neu awgrym o osgoi gwneud hynny, yn enwedig ymhlith staff a myfyrwyr gwyn yn bennaf, a diffyg ymddiriedaeth o bosibl gan staff a myfyrwyr Du ac Ethnig Leiafrifol.

Cynhaliwyd yr arolwg yn dilyn ymgysylltu helaeth â staff a myfyrwyr Prifysgol De Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar faterion Cydraddoldeb Hil. Roedd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys gweithdai gwrth-hiliaeth, a chyfres o sgysiau allweddol a oedd yn canolbwyntio ar degwch o ran hil. Nod y mentrau hyn oedd herio demograffeg staff gwyn yn bennaf, gan ddarparu lle diogel i gydweithwyr Du ac Ethnig Leiafrifol i rannu eu profiadau go iawn. Defnyddiodd Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Prifysgol De Cymru y digwyddiadau hyn i greu rhestr bostio ar gyfer allgymorth arolwg. Fodd bynnag, er gwaethaf cysylltu'n uniongyrchol â 693 o aelodau staff a fynychodd y digwyddiadau hyfforddi hyn, mae'n werth nodi na chafwyd yr ymgysylltu uwch disgwylidiedig ag arolwg y Siarter Cydraddoldeb Hil. Ychydig iawn o staff a myfyrwyr Du ac Ethnig Leiafrifol a gymerodd ran yn benodol.

Themâu allweddol sy'n ymwneud â staff

- **Recriwtio a Dethol:** Tynnodd staff sylw at bryderon ynghylch diffyg cynrychiolaeth amrywiol, yn enwedig ar lefelau uwch arweinwyr. Roedd galwadau i fynd i'r afael â rhagfarn ddarwybod a rhoi strategaethau gweithredu cadarnhaol ar waith.
- **Datblygu Gyrfa a Symud Ymlaen Mewn Gyrfa:** Dywedodd staff academiaidd mai ychydig iawn o gyfleoedd roeddent yn eu cael i ddatblygu'n broffesiynol, gan nodi diffyg tryloywder mewn prosesau dilyniant gyrfa. Er gwaethaf hyn, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo'n gyfforddus yn rhoi adborth i'w rheolwyr llinell, a dywedodd llawer fod arweinwyr yn annog rhannu syniadau mewn cyfarfodydd.
- **Cysylltiad a Gwerth:** Dywedodd llawer o aelodau staff eu bod yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu o'r sefydliad, ond roedd yna ymdeimlad cryf ac amlwg bod Prifysgol De Cymru yn eu gwerthfawrogi. Er gwaethaf y gwrth-ddweud

hyn, roedd y rhan fwyaf o staff yn teimlo'n gyfforddus yn bod yn nhw eu hunain yn y gwaith.

- **Digwyddiadau Hiliol a Mynd i'r Afael â Hiliaeth:** Er bod ymatebwyr yn gyffredinol yn credu y byddai eu rheolwyr yn eu cefnogi i fynd i'r afael â gwahaniaethu neu gam-drin hiliol, roedd ansicrwydd eang ynghylch ble neu sut i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath. Roedd tua hanner y staff yn hyderus y byddai camau ymchwilio priodol yn cael eu cymryd. Nodwyd gwahaniaeth sylweddol rhwng ymatebion staff gwyn a staff Du ac Ethnig Leiafrifol, gyda'r grŵp olaf yn nodi eu bod wedi dod i gysylltiad â digwyddiadau hiliol yn amlach, neu'n fwy ymwybodol ohonynt.

Themâu allweddol sy'n ymwneud â myfyrwyr

- **Digwyddiadau i Fyfrwyr a Chymdeithasu:** Mynegodd myfyrwyr awydd am fwy o ddigwyddiadau sy'n dathlu agweddau amlddiwylliannol y sefydliad. Yn gyffredinol, roedd y teimlad yn gadarnhaol, gyda myfyrwyr yn teimlo bod digwyddiadau a gweithgareddau ym Mhrifysgol De Cymru yn cynnwys pob ethnigrwydd a hil.
- **Diffyg Cynrychiolaeth Amrywiol:** Nododd y rhan fwyaf o fyfyrwyr, ar draws pob ethnigrwydd, fod demograffeg y myfyrwyr a'r staff yn bennaf yn wyn, ac roeddent yn ystyried bod hyn yn adlewyrchu'r sefydliad yn negyddol.
- **Cyfathrebu:** Soniodd llawer o fyfyrwyr am ddiffyg ymwybyddiaeth ynghylch mentrau tegwch o ran hil y sefydliad, ac roedd camddealltwriaeth gyffredinol o'u diben a'u heffaith.
- **Diwylliant a Hinsawdd Cyrsiau** Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn teimlo bod tiwtoriaid yn annog amrywiaeth o syniadau yn ystod darlithoedd a'u bod yn gyfforddus yn rhoi adborth. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch cysondeb ac eglurder, yn enwedig ynghylch systemau TG ac asesiadau, yn amlwg.
- **Asesu a Chymorth:** Nododd ymatebwyr ddiffyg ymwybyddiaeth gan staff ynghylch yr heriau a wynebier gan fyfyrwyr rhyngwladol Du ac Ethnig Leiafrifol o ran cynnwys cyrsiau a dylunio asesiadau. Roedd llawer o fyfyrwyr yn teimlo y gellid gwella gwasanaethau i fyfyrwyr, yn enwedig o ran cymorth.
- **Digwyddiadau Hiliol a Mynd i'r Afael â Hiliaeth:** Yn yr un modd ag ymatebion staff, roedd myfyrwyr yn ansicr ynghylch ble i roi gwybod am ddigwyddiadau hiliol, ac roedd llawer yn cwestiynu a fyddai camau priodol yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, roedd myfyrwyr yn teimlo'n gyffredinol y byddai eu tiwtoriaid yn eu cefnogi i weithredu pe baent yn profi neu'n dyst i fwlio hiliol neu wahaniaethu. Roedd gwahaniaethau amlwg rhwng myfyrwyr gwyn a myfyrwyr Du ac Ethnig Leiafrifol o ran eu profiad o ddigwyddiadau hiliol ar y campws.

I grynhoi, mae arolwg y REC yn cynnig gwybodaeth werthfawr, yn enwedig drwy adborth ansoddol. Fodd bynnag, mae ymgysylltiad cyfyngedig gan grwpiau allweddol yn amlygu'r heriau parhaus o ran mynd i'r afael â thegwch hiliol ymhlith staff a myfyrwyr. Bydd yr adborth hwn, ynghyd â data ansoddol a meintiol presennol (a amlinellir isod), yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio mentrau tegwch hiliol y Brifysgol, gan ddarparu sylfaen gref ar gyfer camau gweithredu a strategaethau yn y

dyfodol i wella tegwch o ran hil ym Mhrifysgol De Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Data Ansoddol a Meintiol Mewnol am Degwch Hiliol a gasglwyd rhwng 2020 a 2024

- Adroddiad ar brofiadau bywyd Staff a Myfyrwyr Du ac Ethnig Leiafrifol 2020
- Cyfarfodydd Gweithredol 2021 - parhaus
- Cyfarfodydd Hyrwyddwyr y Siarter Cydraddoldeb Hil 2021 - parhaus
- Arolwg Pwls Cydraddoldeb Hil 2023
- Adolygiad Sefydliadol 2023
- Sesiynau hyfforddi gwrth-hiliaeth gan gynnwys adroddiadau chwarterol gan hyfforddwyr 2023-2024
- Sgyrsiau Allweddol 2023 - parhaus
- Gweithdy: Advance HE: Galluogi Cwricwlwm sy'n Gynhwysol yn Hiliol 2023
- Gweithdy: ar ESOL gyda FCBI 2023
- Gweithdy cynhwysiant FCES 2023
- Cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain 2023 - parhaus
- Gŵyl Ddiwylliannol - Trefforest 2023
- Neuaddau'r Dref Prifysgol De Cymru 2023 – parhaus
- Cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr 2023 - parhaus
- Sesiynau amrywiol ar Ddeilliannau Gwahaniaethol, gwaith prosiect sy'n Gynhwysol yn Hiliol (h.y. Ystafelloedd Gwranddo), gwaith prosiect Holtse, cymorth ymchwil CELT
- Adolygu Modiwl "Pêl-droed mewn Cymdeithas" gyda myfyrwyr

Y diweddaraaf am Brifysgol Noddfa

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cymerodd y Brifysgol gamau sylweddol i gefnogi unigolion sydd wedi'u dadleoli a datblygu mentrau sy'n gysylltiedig â ffoaduriaid. Dyblodd y brifysgol nifer yr ysgoloriaethau y mae'n eu cynnig, gan ehangu o 2 i 4, a lansiodd ei chymdeithas Student Action for Refugees (STAR) gyntaf yn 2024.

Gan adeiladu ar y momentwm hwn, cyflwynodd Prifysgol De Cymru Gynllun Cymrodyr arloesol ar gyfer academyddion sydd wedi'u dadleoli o Syria yn 2023. Croesawodd y rhaglen 34 o Gymrodyr CARA o Syria, gan roi mynediad iddynt at gymorth llyfrgell, rhwydweithiau academiaidd, a chyfleoedd i gyfrannu at ailadeiladu addysg uwch yn Syria. Gall y Cymrodyr hyn, sy'n gysylltiedig â Phrifysgol De Cymru, ddefnyddio adnoddau llyfrgell y brifysgol dros y pum mlynedd nesaf, gan eu galluogi i barhau â'u gwaith academiaidd. Yn ogystal, mae Prifysgol De Cymru wedi cydweithio'n agos â CARA (Council for At-Risk Academics) i gefnogi ysgolhaig o Iran sy'n dilyn PhD yng Nghymru.

Mae ymrwymiad Prifysgol De Cymru i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yn ymestyn y tu hwnt i'r byd academiaidd. Mae'r brifysgol yn parhau i weithio gydag ystod eang o sefydliadau trydydd sector, cyrff llywodraeth leol a chenedlaethol, a sefydliadau addysgol i eirioli dros faterion ymfudo dan orfod, integreiddio, a pholisïau lloches dynol. Mae'r ymdrechion nodedig yn cynnwys cynrychioli staff Prifysgol De Cymru ar grŵp llywio Dinas Noddfa Caerdydd, ymgynghori ar fframwaith integreiddio

mudwyr Llywodraeth Cymru, cymryd rhan yn y grŵp llywio addysg iaith mudwyr, a chydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ddarparu dosbarthiadau ESOL i ffoaduriaid.

Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol De Cymru wedi arwain y gwaith o greu'r grŵp "Noddfa yn Addysg Drydyddol Cymru". Nod y cydweithio newydd hwn rhwng colegau, prifysgolion, ysgolion a mudiadau trydydd sector ledled Cymru yw symleiddio a hyrwyddo mentrau addysgol—gan gynnwys ysgoloriaethau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches—gan sicrhau gwell cyfathrebu a chydlyn rhwng yr holl bartïon dan sylw.

Adrodd a Chefnogi - y diweddaraf am adrodd ar fwlio, aflonyddu, trais a/neu wahaniaethu ar sail hunaniaeth

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyflwynwyd cyfanswm o 129 o adroddiadau drwy'r Llwyfan Adrodd a Chymorth. O'r rhain, roedd 75 adroddiad yn cynnwys manylion cyswllt, a 54 wedi'u cyflwyno'n ddienw. Cafodd 110 o adroddiadau eu cyflwyno gan fyfyrwyr a 19 gan aelodau staff.

Gwybodaeth allweddol am bwy sy'n adrodd a beth maen nhw'n rhoi gwybod amdano:

1. Mae myfyrwyr yn adrodd yn amlach na staff
 - Ar draws pob categori, mae llawer mwy o fyfyrwyr na staff yn cyflwyno adroddiadau.
 - Aflonyddu (41 o adroddiadau), ac yna Bwlio (33 o adroddiadau) a Gwahaniaethu (37 o adroddiadau) yw'r problemau a gofnodwyd fwyaf ymysg myfyrwyr.
2. Mae nifer yr adroddiadau gan staff yn is
 - Bwlio (8 adroddiad) ac Aflonyddu (8 adroddiad) yw'r materion sy'n cael eu hadrodd amlaf gan staff.
 - Ychydig iawn o adroddiadau a geir gan staff mewn categorïau eraill, gyda rhai categorïau heb adroddiadau o gwbl (Troseddau Casineb, Ymosod, Sbeicio diodydd a nodwyddau).
3. Gwahaniaethu ac Aflonyddu yw'r prif bryderon i fyfyrwyr
 - Aflonyddu (41 o adroddiadau) a Gwahaniaethu (37 o adroddiadau) yw'r materion a adroddir amlaf gan fyfyrwyr.
 - Mae hyn yn awgrymu bod y pryderon hyn yn arbennig o amlwg ymhlith myfyrwyr.
4. Ansicrwydd wrth adrodd
 - Mae rhai adroddiadau wedi'u categorïddio fel "Dydw i ddim yn siŵr" (14 adroddiad gan fyfyrwyr, 6 gan staff), sy'n dangos lefel o ansicrwydd o ran sut i gategoreiddio achosion.

Gwybodaeth bwysig am pam mae pobl yn dewis cyflwyno adroddiad yn ddienw:

1. Ofn Sgil-ffeithiau yw'r Prif Bryder – Y rheswm mwyaf cyffredin dros gyflwyno adroddiad yn ddienw yw o ganlyniad i ofni sgil-ffeithiau iddynt eu hunain neu i bobl eraill (40 o ymatebion).
2. Pryderon ynghylch Awdurdod a Hygrededd – Mae llawer o bobl yn adrodd yn ddienw am eu bod yn teimlo bod gan y cyflawnwr fwy o awdurdod (33 o

- ymatebion) neu am eu bod yn poeni na fydd neb yn eu credu (29 o ymatebion).
3. Ofnau ynghylch Gyrfa ac Enw Da – Mae pryderon am effaith ar yrfa (29 o ymatebion) a'r ofn o gael eu labelu fel rhywun sy'n creu helynt (25 o ymatebion) yn ffactorau pwysig.
 4. Rhwystrau Emosiynol – Mae teimladau o embaras neu gywilydd (19 o ymatebion) yn cyfrannu at benderfynu bod yn ddienw.
 5. Diffyg Gweithredu Blaenorol yn Arwain at fod yn Ddienw – Roedd rhai ymatebwyr wedi adrodd am broblemau o'r blaen ond naill ai nid oeddent wedi cael eu cymryd o ddifri (15 ymateb) neu nid oeddent wedi gweld unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd (18 ymateb).
 6. Awydd am Breifatrwydd – Roedd cyfran nodedig (10-13 o ymatebion) eisiau cadw'r digwyddiad yn breifat, nid oeddent eisiau achosi trafferth, neu roedd yn well ganddynt beidio â datgelu'r manylion eu hunain.
 7. Rhesymau Eraill sy'n Bodoli – Cyfeiriodd rhai ymatebwyr (11 ymateb) at resymau gwahanol y tu hwnt i'r rhai a restrwyd.

Ar y cyfan, mae'r data'n tynnu sylw mai'r ofn hwnnw—boed hynny'n ofn dial, ofn na fydd rhywun yn eu credu, neu ofn niwed i ddyfodol rhywun—yw un o'r prif resymau dros gyflwyno adroddiadau'n ddienw.

Casgliad

I gloi, er bod camau sylweddol wedi'u cymryd yn ystod y cyfnod adrodd hwn i fabwysiadu dull gweithredu newydd tuag at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Brifysgol—gan symud oddi wrth gydymffurfio yn unig at awydd i ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ddwfn yn ein deialog strategol a'n hymrwymadau—rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd. Mewn oes lle mae cyfyngiadau ariannol ac aflonyddwch cymdeithasol-wleidyddol yn nodweddiadol, mae'n hanfodol ein bod yn aros yn gadarn yn ein hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Dim ond drwy'r ymrwymiad diwyro hwn y gallwn barhau i roi ein staff, ein myfyrwyr a'n cymuned wrth wraidd popeth a wnawn, gan sicrhau dyfodol mwy cynhwysol a theg i bawb.

Atodiad 1 Digwyddiadau ac Ymgyrchoedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Allanol – Gwefan		
Dyddiad	Teitl	Dolen
10/04/23	Wythnos Ymwybyddiaeth Dyslecsia: Prifysgol De Cymru yn dathlu degawd gyda phartner addysgol nodedig	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/hydref/wythnos-ymwybyddiaeth-dyslecsia--pdc-yn-dathlu-degawd-gyda-phartner-addysgol-nodedig/
23/04/23	Croesawu ffoaduriaid gydag iaith addysg gynhwysol	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/ebrill/croesawu-ffoaduriaid-gydag-iaith-addysg-gynhwysol/
05/05/23	Coroni darlithydd yn Hyrwyddwr y Coroni	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mai/darlithydd-yn-cael-ei-goronin-hyrwyddwr-y-coroni-i-gydnabod-gwaith-gwirfoddol/
16/05/23	Dosbarthiadau Saesneg ESOL yn hanfodol ar gyfer integreiddio mudwyr ond mae heriau o hyd	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mai/dosbarthiadau-saesneg-esol-yn-hanfodol-ar-gyfer-integreiddio-mudol-ond-mae-heriau-yn-parhau-heb-eu-datrys/
15/06/23	Mis Balchder: Defnyddio ffotograffiaeth i archwilio hunaniaeth cwiar	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mehefin/mis-balchder--defnyddio-ffotograffiaeth-i-archwilio-hunaniaeth-cwiar/
20/06/23	Wythnos y Ffoaduriaid: Mae academyddion o Syria yn ennill Cymrodoriaethau AdvanceHE o Brifysgol De Cymru	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mehefin/wythnos-ffoaduriaid--mae-academyddion-o-syria-yn-ennill-cymrodoriaethau-advancehe-o-pdc/
22/06/23	Wythnos y Ffoaduriaid: Gwersi Cymraeg yn boblogaidd gyda ffoaduriaid	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mehefin/wythnos-ffoaduriaid--gwersi-cymraeg-yn-boblogaidd-gyda-ffoaduriaid/
26/06/23	Mis Balchder: Dylid dathlu Balchder ni waeth pwy ydych chi	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mehefin/mis-balchder--dylid-dathlu-balchder-ni-waeth-pwy-ydych-chi/
26/06/23	'Mae angen i ni gael ein cydnabod': sut mae henuriaid y Caribî yn dod i	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mehefin/mae-angen-i-ni-gael-ein-cydnabod-sut-mae-henuriaid-y-caribi-yn-llywio-perthyn-ir-du/

	deimlo eu bod yn perthyn yn y DU	
28/06/23	Mis Balchder: Aston yn eiriol dros gleifion LGBTQIA+ mewn gofal iechyd	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mehefin/mis-balchder--aston-yn-eiriol-dros-gleifion-lgbtqia-mewn-gofal-iechyd/
26/10/23	Mis Hanes Pobl Ddu: Sioe theatr glodfawr i raddedigion Prifysgol De Cymru yn dychwelyd i Gymru	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/hydref/mis-hanes-pobl-dduon--sioe-theatr-glodfawr-prifysgol-de-cymru-yn-dychwelyd-i-gymru/
30/10/23	Sut gall gwasanaethau defnyddio sylweddau gefnogi pobl LHDTTC+ yn well	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/hydref/sut-y-gall-gwasanaethau-defnyddio-sylweddau-gefnogi-pobl-lhdttc-yn-well/
16/11/23	Sut mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i annog mudwyr i deimlo'n gartrefol	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/tachwedd/maer-gymraeg-yn-cael-ei-defnyddio-i-annog-ymfudwyr-i-deimlon-gartrefol/
16/11/23	Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd: Sut mae Stiwdio wedi helpu Amber i adeiladu ei llinell ffasiwn gynaliadwy a chynhwysol	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/tachwedd/wythnos-entrepreneuriaeth-y-byd-sut-gwnaeth-y-stiwdio-helpu-amber-i-adeiladu-ei-llinell-ffasiwn-gynaliadwy-a-chynhwysol/
06/12/23	Cranogwen: dadorchuddio cerflun i'r arloeswraig yn Llangrannog	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/mehefin/cranogwen-dadorchuddio-cerflun-ir-arloeswraig-yn-llangrannog/
14/12/23	Mis Hanes Anabledd: Prifysgol De Cymru a Phobl yn Gyntaf Cwm Taf yn dod at ei gilydd i roi mwy o lais i bobl ag anableddau dysgu	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2023/rhagfyr/mis-hanes-anabledd--mae-pdc-a-phobl-yn-gyntaf-cwm-taf-yn-cydweithio-i-fwyhau-llais-cyfunol-pobl-ag-anableddau-dysgu/
25/01/24	Cymrodoriaeth er Anrhydedd i Gadeirydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2024/ionawr/cymrodoriaeth-er-anrhydedd-i-gadeirydd-cyngor-ffoaduriaid-cymru/
25/01/24	Hanesion Graddio: Mae Lynne yn defnyddio ei phrofiad o'r menopos i helpu eraill	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2024/ionawr/hanesion-graddio--mae-lynne-yn-defnyddio-profiad-or-menopos-i-helpu-eraill/

08/03/24	Diwrnod Rhyngwladol y Menywod: Diwylliant gwasanaeth cyhoeddus sy'n esblygu'n gyson	https://www.southwales.ac.uk/cy/newyddion/2024/mawrth/diwrnod-rhyngwladol-y-menywod--diwylliant-gwasanaeth-cyhoeddus-syn-esblygun-gyson/
22/03/24	Gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau byd mwy cynhwysol i fenywod: Jane Hutt AS yn trafod cydraddoldeb rhywedd yn un o ddigwyddiadau Prifysgol De Cymru	https://www.southwales.ac.uk/news/2024/march/we-can-work-together-for-a-more-inclusive-world-for-women-jane-hutt-ms-addresses-gender-equality-at-usw-event/
Y Cyfryngau Cymdeithasol – X		
Dyddiad	Teitl	Dolen
21/04/23	Ramadan 2023	https://twitter.com/De_Cymru/status/1649344924431572993
22/04/23	Diwrnod Stephen Lawrence	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1649721427594035200
05/04/23	Wythnos Ymwybyddiaeth o Fod yn Fyddar	https://twitter.com/De_Cymru/status/1654048633606610945
17/05/23	Diwrnod IDAHOBIT 2023	https://twitter.com/De_Cymru/status/1658760060581937152
18/05/23	Diwrnod Ymwybyddiaeth o Hygyrchedd Byd-eang	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1659132824526397440
19/06/23	Teulu Prifysgol De Cymru Parêd Pride	https://twitter.com/De_Cymru/status/1671801584731267072
22/06/23	Diwrnod Cenedlaethol Windrush	https://twitter.com/De_Cymru/status/1671801584731267072
18/07/23	Diwrnod Ymwybyddiaeth Arweinwyr Du	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1681242459492306946
18/07/23	Mis Treftadaeth De Asia	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1681243056538779648
23/08/23	Diddymu'r fasnach mewn caethweision	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1694291860959682632
02/09/23	Noddi'r llwyfan cymunedol yn nigwyddiad pride in the port	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1697939294403326439
15/9/23	Diwrnod Affro y Byd	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1702504621065826752

10/10/23	Mis Hanes Pobl Ddu	https://x.com/UniSouthWales/status/1708768218750300392
10/10/23	Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1711675154235834531
11/12/23	Diwali	https://twitter.com/De_Cymru/status/1723611801940537827
18/12/23	Dathlu effaith, cyfraniad a phwysigrwydd mudwyr rhyngwladol yn y DU	https://x.com/USWEequality/status/1736690482586030287
29/01/24	Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust	https://x.com/USWEequality/status/1751889698111230408
01/02/24	Diwrnod Hijab y Byd	https://twitter.com/PDC_Cynhwysiant/status/1752994536479944868
06/02/24	Wythnos Cydraddoldeb Hil	https://x.com/USWEequality/status/1754856158718726624
08/03/24	Diwrnod Rhyngwladol y Menywod	https://twitter.com/De_Cymru/status/1766028156354310314
21/03/24	Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Gwahaniaethu ar sail Hil	https://x.com/De_Cymru/status/1770756518528344176

Atodiad 2 – Digwyddiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gyflwynwyd gan y Gyfadrn Busnes a'r Diwydiannau Creadigol

Teitl y digwyddiad	Dyddiad	Crynodeb	Sefydliad arweiniol	Nifer y Mynychwyr (os yw hyn yn hysbys)
Cyfres Mewnwelediadau Busnes: Menywod mewn Busnes gyda Donna Whithead	10.05.23	Donna Whitehead yn rhannu ei phrofiad a hanes ei llwybr gyrfa	Sian Jenkins	18
Ymchwil am 4: Ymchwil Cymru	22.06.23	Tynnu sylw at feysydd Ymchwil dan Arweiniad Cymru ym Mhrifysgol De Cymru, gyda Steffan James, Dr Helen Davies a Dr Sera Moore Williams.	Susan Wood	16
Trais Rhywiol sy'n Gysylltiedig â Gwrthdaro (CRSV) a'r Celfyddydau	13.07.23	Bydd y sesiwn rhad ac am ddim hon yn y bore yn edrych ar rôl y celfyddydau o ran gweithio tuag at roi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a bydd yn cynnwys perfformiad o'r ddrama <i>No Name</i> gan GJ Kalic, gyda thrafodaeth	Emily Underwood-Lee	29

		panel arbenigol i ddilyn.		
Dosbarth Meistr Ffilm gyda Dr Mena Fombo	20.09.23	Dr Mena Fombo yn rhannu ei phrofiad fel gwneuthurwr ffilmiau du	Samo Chandlar	29
Trafod ffilmiau myfyrwyr gyda Berwyn, Gwobr Iris	03.10.23	Myfyrwyr yn rhannu eu ffilmiau gyda Berwyn Reynolds (sylfaenydd gwobr ffilm Iris LHDTCRhA+)	Samo Chandlar	42
Ymchwil am 4: Hunan Dreftadaeth - gyda Christina Papagiannouli	08.11.23	Dr Christina Papagiannouli yn archwilio theatr yn y Flach a Groeg Pontig, sy'n leithoedd mewn Perygl.	Susan Wood	7
Gwaith ar y Gweill: Bevin Magama – Poking the Crocodile	22.11.23	Drwy'r gair llafar a chân, mae Bevin Magama yn adrodd hanes ei fywyd rhyfeddol, o fod yn blentyn yn tyfu i fyny yn Zimbabwe dan reolaeth apartheid, i gyrraedd Cymru yn ffoadur a cheisiwr lloches.	Emily Underwood-Lee	20
Gwaith ar y Gweill: Chandrika Joshi	06.12.23	Bydd Chandrika yn cyflwyno sioe yn seiliedig ar ei phrofiadau bywyd ac yn adrodd straeon traddodiadol. Daeth i fyw i Gymru yn 1972 pan gafodd ei hanfon o	Emily Underwood-Lee	20

		Uganda a hithau yn ei harddegau.		
Lansio Llyfr Sera Williams: Dramâu'r Rhosys Cochion	12.12.23	Dathlu lansio cyfres o ddramâu gan Sharon Morgan, sef Dramâu'r Rhosys Cochion (golygwyd gan Dr Sera Moore Williams), a gyhoeddwyd gan Honno. Bydd Sharon Morgan yn darllen yn y digwyddiad hwn.	Sera Williams	34
Beautiful creatures: an african safari	13.12.23-15.12.23	Perfformiad cerddorol cynhwysol i blant 4-7 oed o ysgolion cynradd lleol.	Michale Carklin	545 i gyd
Ffotograffiaeth ac Ymarfer Cymunedol yng Nghymru gyda David Barnes	24.01.24	Bydd David yn cyflwyno trosolwg o'i ymchwil PhD i ffotograffiaeth gymunedol yng Nghymru a syniadau am hunaniaeth genedlaethol.	Mark Durden	10
Ymchwil am 4: Menywod a'r gweithle	08.03.24	Trafodaeth banel am y gwaith ymchwil diweddaraf am fenywod yn y gweithle. Gyda Dr Rachel Lock-Lewis, Dr Lauren Thomas, Dr Shehla Khan a Dr Chibuzo Amadi.	Susan Wood a Lauren Thomas	10

Ymchwil am 4/gwlad fach/adrodd straeon a rhywedd gyda Michael Brown	12.03.24	Mae Michael Brown yn archwilio arferion ffilm ethnograffig a chyfranogol, gan ymgysylltu â phobl sydd ar y cyrion, sydd dan anfantais neu sy'n dirywio a'u diwylliannau, eu rhywogaethau, eu lleoedd a'u hecosystemau, i hyrwyddo deialog wrth chwilio am drawsnewid cadarnhaol.	Susan Wood	14
Aduniad Beijing 95	20.03.24	Mae'r digwyddiad hwn yn dod ag aelodau o Gynulliad Merched Cymru a hwylusir gan y Cenhedloedd Unedig at ei gilydd i archwilio arwyddocâd cynhadledd 1995, y Llwyfan Gweithredu a ddaeth o ganlyniad i hynny, a gwaith Cynulliad Merched Cymru i sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu yng Nghymru. Jane Hutt AS a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fydd yn rhoi'r	Diana Wallace a Rachel Lock- Lewis	15

		prif anerchiad ar y cynnydd tuag at gydraddoldeb rhywedd yng Nghymru, a bydd Dr Rachel Lock-Lewis (Prifysgol De Cymru) yn cyflwyno ei chanfyddiadau ymchwil ar Gynhadledd Beijing a Chynulliad Merched Cymru.		
--	--	--	--	--